



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Cylch Meithrin Llangwryfon
Neuadd Santes Ursula
Llangwryfon
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 4HA**

Dyddiad yr arolygiad: Medi 2015

gan

**Dorothy Morris
Arolygydd Cofnodol**

ar ran

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Ⓜ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/12/2015

Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Llangwryfon yn cyfarfod yn Neuadd Santes Ursula ym mhentref Llangwryfon ger Aberystwyth. Mae ar agor am bedwar bore'r wythnos yn ystod y tymor ysgol.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 15 o blant fesul sesiwn. Ar hyn o bryd, mae deg o blant rhwng dwy a phedair oed ar y gofrestr, gyda phedwar ohonynt yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dod o deuluoedd lle mae o leiaf un rhiant yn siarad Cymraeg. Yn ôl y lleoliad, nid oes plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol o fewn y garfan bresennol.

Mae tri aelod o staff yn cynnwys arweinydd amser llawn a dwy ymarferwraig ar gytundebau rhan amser. Mae'r holl staff yn brofiadol ac mae'r rhan fwyaf yn meddu ar gymwysterau addas ym maes addysg a gofal plant bach. Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers 2006.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn Ionawr 2014 a chan Estyn ym Medi 2012.

Crynodeb

Perfformiad presennol y lleoliad	Da
Rhagolygon gwella'r lleoliad	Da

Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod o weithgareddau diddorol i'r plant
- Mae'r anogaeth gyson i'r plant ddefnyddio eu medrau Cymraeg yn eu dysgu a'u chwarae yn nodwedd gadarn
- Mae darpariaeth effeithiol i ddatblygu medrau rhifedd y plant
- Mae'r defnydd adeiladol o ddulliau addysgu ac adnoddau priodol yn llwyddo i ennyn diddordeb ac ymglymiad y plant yn eu dysgu
- Mae'r ymarferwyr yn fodolau iaith effeithiol
- Mae'r ymarferwyr yn cyflawni eu nod o sicrhau bod y plant yn hapus yn lleoliad ac yn mwynhau eu dysgu
- Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd gofalgarn a chynhaliol i'r plant

Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- Mae'r ymarferwyr yn cyflawni eu rolau'n gydwybodol ac yn dangos ymrwymiad cryf i addysg a lles y plant
- Mae defnydd cynhyrchiol o fedrau'r ymarferwyr i arwain agweddau ar y dysgu
- Mae swyddogion y pwyllgor rheoli yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn effeithiol
- Mae dealltwriaeth addas gan yr ymarferwyr o brif gryfderau'r lleoliad
- Mae'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac maent yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio
- Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys targedau addas ac mae'n cael ei weithredu'n briodol
- Mae partneriaethau yn cyfrannu'n adeiladol at waith y lleoliad

Argymhellion

- A1 Ymsefydlu'r gweithdrefnau cynllunio ymhellach i ddatblygu medrau'r plant yn fwy systematig ar draws y meysydd dysgu
- A2 Datblygu'r defnydd o ddeilliannau asesu cynnydd plant wrth gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu
- A3 Sefydlu gweithdrefnau arfarnu mwy cadarn i adnabod a mynd i'r afael â'r meysydd sydd angen sylw
- A4 Mynd i'r afael â'r mater iechyd a diogelwch a drafodwyd yn ystod yr arolygiad

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Amherthnasol

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Da

Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod o brofiadau diddorol ar draws y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu. Mae'r gweithgareddau'n seiliedig ar gyfres o themâu sy'n gweddu i ystod oed a lefel datblygiad y plant. Mae peth defnydd o ymweliadau ac o gyfraniad ymwelwyr i ehangu profiadau'r plant. Maent yn cynnwys ymweliadau â siop y pentref, y llyfrgell yn Aberystwyth a thaith ar y trê'n bach i Bontarfynach.

Mae'r cynllunio ar gyfer gweithgareddau dan arweiniad oedolion yn nodi'r medrau dan sylw yn glir. Mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu trefnu'n briodol i gwrdd ag anghenion dysgu plant o wahanol oed er nad yw hyn yn amlwg yn y cynllunio bob amser. Mae'r cynllunio ar gyfer chwarae annibynnol y plant yn anwastad ac yn rhy gyffredinol ar y cyfan i gefnogi eu dysgu yn gyson. At ei gilydd, nid yw'r gweithdrefnau cynllunio wedi'u hymsefydlu'n ddigon cadarn i sicrhau bod medrau'r plant yn datblygu'n systematig ar draws pob maes dysgu.

Mae gweithgareddau dyddiol yn darparu cyfleoedd addas i'r plant ddefnyddio eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae anogaeth gyson i'r plant ddefnyddio eu medrau Cymraeg yn eu dysgu a'u chwarae. Mae hon yn nodwedd gadarn. Mae cyfleoedd priodol i'r plant sgwrsio'n syml, i wrando ar storïau, edrych ar lyfrau a chanu caneuon a rhigymau. Mae darpariaeth effeithiol i ddatblygu medrau mathemateg a rhif y plant. Maent yn cynnwys sesiynau penodol i ddatblygu dealltwriaeth y plant o rif sylfaenol yn ogystal â gweithgareddau pwrpasol i'r plant gymhwyso eu gwybodaeth o rif a siap, er enghraifft, mewn cyd-destunau gwahanol. Mae ychydig o gyfleoedd addas i'r plant ymarfer eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) sylfaenol ond nid oes cynllunio digon manwl i ddatblygu eu medrau yn gyson.

Mae cyfleoedd priodol i'r plant ymarfer eu medrau creadigol a chorfforol ac i ddatblygu eu medrau ymchwilol. Mae gweithgareddau, megis defnyddio ffotograffau i adnabod nodweddion yn yr ardal allanol a dilyn cyfarwyddiadau gweledol wrth deithio ar eu beiciau, yn darparu cyfleoedd adeiladol i'r plant ddefnyddio eu medrau meddwl yn annibynnol.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau Cymru yn effeithiol drwy weithgareddau megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen.

Addysgu: Da

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth sicr am ddatblygiad plant a'r Cyfnod Sylfaen. Maent yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sydd yn cael eu harwain gan oedolion a gweithgareddau y mae'r plant yn eu dewis eu hunain. Mae'r defnydd addas o ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau priodol yn llwyddo i ennyn diddordeb ac ymglymiad y plant yn eu dysgu. Mae'r ymarferwyr yn ymuno'n effeithiol yn y gweithgareddau i annog dysgu'r plant ac i ymestyn eu geirfa. Maent yn croesawu cyfraniadau plant sy'n datblygu eu hyder i ateb cwestiynau a mynegi barn yn syml. Enghraifft o hyn yw parodrwydd y plant i drafod eu harbrosion yn y badell dywod gydag ychydig ohonynt yn ateb mewn brawddegau estynedig yn cynnwys termau cywir megis llawn a gwag, trwm ac ysgafn.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn medru trafod eu datblygiad yn fanwl. Maent yn arsylwi ar y plant yn cymryd rhan yn eu gweithgareddau ac yn trafod a chofnodi unrhyw ddatblygiadau o bwys. Mae defnydd effeithiol o'r arsylwadau i ddarparu cefnogaeth ychwanegol i unigolion gydag agweddau o'u gwaith. Mae defnydd llawn o'r asesiadau ar gyfer cynllunio'r camau nesaf yn y dysgu, yn cynnwys ymestyn y plant mwy galluog, yn fwy anwastad.

Mae rhieni yn cael eu hysbysu'n briodol am gynnydd eu plant trwy drafodaethau anffurfiol a thrwy adroddiad ysgrifenedig sy'n nodi datblygiad y plant yn glir yn y chwe maes dysgu.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r trefniadau sefydlu yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n dda yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn ofalgar a chynhaliol o'r holl blant. Mae cyfleoedd priodol i godi ymwybyddiaeth plant o bwysigrwydd bwytfa'n iach ac ymarfer y corff. Mae byrbrydau iachus, yn cynnwys ystod o ffrwythau, ar gael i'r plant.

Mae trefniadau sefydlog ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol pan fydd angen. Mae gan y lleoliad bolisi clir sy'n cynnwys y wybodaeth angenrheidiol. Mae llinellau cyfathrebu priodol ag asiantaethau allweddol megis gwasanaethau cefnogi plant.

Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol y plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol, yn briodol. Mae gwerthoedd fel pwysigrwydd rhannu a chymryd tro yn cael eu meithrin yn effeithiol trwy weithgareddau dyddiol. Mae profiadau, megis cynnig gweddi cyn byrbryd ac ymuno mewn gwasanaeth diolchgarwch a dathliadau'r Nadolig, yn cyfrannu'n addas at ddatblygiad ysbrydol y plant. Yn ogystal, mae cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r ysgol yn cyfrannu ymhellach at eu datblygiad cymdeithasol.

Mae rhai cyfleoedd addas i'r plant ddysgu am ddiwylliannau eraill. Maent yn dathlu'r flwyddyn newydd Tseiniaidd drwy ystod o weithgareddau addas. Mae dysgu am fywyd pobl yn Affrica drwy ddarllen storiâu a thrafod lluniau yn dechrau datblygu eu hymwybyddiaeth o'r byd ehangach.

Mae'r cyfleoedd i dyfu a gofalu am blanhigion ac ymgymryd â gweithgareddau ailgylchu, yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd a phob peth byw yn briodol.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Trafodwyd ymhellach un mater yn ymwneud ag iechyd a diogelwch gydag arweinydd y lleoliad a'r swyddogion.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol sy'n rhoi mynediad cyfartal i bob plentyn i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau. Mae'r ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth a gwerth i gefndiroedd amrywiol plant ac ymatebant yn briodol. Maent yn llwyddo i greu amgylchedd cynnes a chyfeillgar i'r plant.

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr gyda chymwysterau addas i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r adeilad o ansawdd da ac yn cynnig cyfleusterau addas. Mae defnydd priodol o'r lle sydd ar gael. Caiff y neuadd ei defnyddio gan nifer o fudiadau eraill. O ganlyniad, mae'n rhaid i'r ymarferwyr osod a chlirio offer ac adnoddau ar ddechrau ac ar ddiwedd pob sesiwn. Mae arddangosiadau o samplau o waith y plant yn cyfrannu at greu amgylchedd lliwgar.

Mae digon o adnoddau ar draws y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu. Mae'r ystod o adnoddau TGCh yn fwy cyfyng. Mae'r ardal ddysgu awyr agored yn fechan ond yn darparu lle addas ar gyfer gweithgareddau corfforol ac ymchwilio. Mae'r adeilad a'r safle yn lan. Mae'r drysau a'r gatiau yn ddiogel.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Da

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r arweinydd yn ymgymryd â'i chyfrifoldebau yn gydwybodol ac yn dangos ymrwymiad mawr i'r lleoliad. Mae'r holl ymarferwyr yn deall eu rolau ac yn rhannu'r un gwerthoedd cyffredin am ddysgu a datblygiad plant. Maent yn sefydlu perthynas gadarnhaol gyda'r plant, eu rhieni a gofaluwr ac asiantaethau gwahanol sy'n cyfrannu'n dda at ymdeimlad o gymuned o fewn y lleoliad. Mae gweithdrefnau dyddiol yn gweithio'n ddidrafferth a chaiff polisïau addas eu gweithredu'n briodol.

Mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn ac wedi sefydlu perthynas waith adeiladol gyda'r ymarferwyr. Mae'r swyddogion yn ymgymryd â'u chyfrifoldebau yn effeithiol. Er enghraifft, mae cadeirydd y pwyllgor rheoli wedi trefnu adolygiad o'r safle cyn ehangu'r defnydd o'r ardal allanol fel ardal chwarae mwy cynhwysfawr i'r plant. Mae'r gwelliannau wedi sicrhau ardal ddeniadol a defnyddiol i'r plant.

Mae gan y lleoliad system briodol ar gyfer gwerthuso gwaith yr ymarferwyr ac adnabod anghenion datblygiad proffesiynol pellach.

Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, datblygu medrau iaith Cymraeg y plant a hyrwyddo bwyta'n iach.

Gwella ansawdd: Digonol

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth briodol am brif gryfderau'r lleoliad ac o rai o'r meysydd i'w datblygu. Maent yn rhoi ystyriaeth deg i farn rhieni trwy drafodaethau dyddiol a dadansoddi'r holiaduron blynyddol, sydd yn gefnogol. Maent yn manteisio ar gymorth adeiladol swyddog cyswllt yr awdurdod lleol a swyddog datblygu Mudiad Meithrin i wneud gwelliannau perthnasol. Mae'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd a rhoi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio. Mae'r defnydd adeiladol o'r ardal chwarae allanol yn enghraifft.

Mae'r ymarferwyr yn arsylwi ar ymateb y plant yn ystod gweithgareddau ac yn cofnodi sylwadau priodol ar eu taflenni cynllunio. Neilltuir cyfnod yn wythnosol i drafod a chynllunio ar gyfer yr wythnos i ddilyn. At ei gilydd, fodd bynnag, mae gweithdrefnau arfarnu effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn rhy anffurfiol eu natur i adnabod a mynd i'r afael yn gyson â'r meysydd sydd angen gwelliant.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn darparu gwybodaeth addas am y ddarpariaeth. Mae'r cynllun datblygu sydd yn deillio o hyn yn cynnwys targedau perthnasol ynghyd ag amserlen a chyfrifoldebau penodol. Er yn anwastad, mae tystiolaeth o welliannau wrth weithredu'r cynlluniau datblygu blaenorol. Maent yn cynnwys datblygu gweithdrefnau asesu mwy manwl a chyflwyno gweithgareddau dan arweiniad oedolion i gwrdd ag anghenion dysgu plant o wahanol oed.

Mae'r mwyafrif o'r argymhellion a nodwyd yn adroddiad yr arolygiad diwethaf wedi cael sylw addas. Er hyn, nid yw'r argymhellion sy'n ymwneud â chynllunio'r cwricwlwm ac arfarnu'r ddarpariaeth wedi'u cyflawni'n llawn.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae partneriaeth gadarn gyda rhieni a gofalwyr a chafodd hynny ei gadarnhau yn y sgysiau a gafwyd yn ystod yr arolygiad. Mae'r ymarferwyr ar gael yn rheolaidd i gyfarfod â rhieni ar ddechrau a diwedd pob sesiwn. Maent yn darparu gwybodaeth berthnasol iddynt am weithgareddau'r lleoliad trwy'r llawlyfr, hysbysfwrdd a chylchlythyron.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau adeiladol gyda'r ysgol leol. Mae'r ymarferwyr a'r plant yn elwa o'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau gyda phlant yr ysgol. Mae'r cysylltiadau hefyd yn helpu'r plant i drosglwyddo'n ddiraffferth i gyfnod nesaf eu haddysg.

Mae'r berthynas waith gadarnahaol gyda swyddog cyswllt yr awdurdod lleol, swyddogion ac aelodau'r pwyllgor rheoli, a swyddog Mudiad Meithrin yn hyrwyddo datblygiad pellach y lleoliad.

Mae cysylltiadau buddiol gyda'r gymuned, yn cynnwys pwyllgor y neuadd, y capel a'r eglwys. Mae'r plant yn ymweld â lleoedd gwahanol yn y pentref megis y siop a'r swyddfa bost, ac yn cymryd rhan yn yr eisteddfod a'r Cwrdd Bach. Mae'r gweithgareddau hyn yn datblygu eu hymwybyddiaeth o'u cymuned yn effeithiol. Mae'r cysylltiadau adeiladol gyda'r rhieni a'r gymuned yn sicrhau cefnogaeth dda i weithgareddau codi arian ar gyfer y lleoliad.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol. Mae defnydd effeithiol o amser a medrau unigolion i arwain profiadau dysgu, er enghraifft, gweithgareddau mathemateg. Mae defnydd cynhyrchiol o adnoddau i gefnogi'r dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn mynychu cyrsiau addas ar agweddau sydd yn ymwneud ag addysg a gofal plant. Gwnânt ddefnydd priodol o'r hyfforddiant i hybu agweddau megis medrau iaith a mathemateg y plant. Mae defnydd priodol o rai ymweliadau â lleoliadau eraill i rannu profiadau ac i arsylwi arfer dda.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion y lleoliad. Mae defnydd effeithiol o fentrau codi arian er mwyn ychwanegu at yr adnoddau. O ystyried ystod y profiadau, ansawdd yr addysgu, a'r gofal a chymorth i blant, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

Atodiad 1

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

Atodiad 2

Yr arolygydd cofnodol –

Dorothy Morris	Arolygydd Cofnodol
----------------	--------------------

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Rhestr termau

AGGCC	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
Athro ymgynghorol awdurdod lleol	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
Y Cyfnod Sylfaen	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
Meysydd Dysgu	Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu • datblygiad mathemategol • datblygu'r Gymraeg • gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • datblygiad corfforol • datblygiad creadigol
Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012.
Mudiad Meithrin	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.